

**Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanelltyd**

Nos Fawrth, Mehefin 14, 2022 am 7:30yh o'r gloch.

**AGENDA**

[www.cyngorllanelltyd.cymru](http://www.cyngorllanelltyd.cymru)

**Gweddi**

**1. Ymddiheuriadau:**

**2. Datgan diddordeb:**

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mai 10, 2022**

**4. Materion yn codi o'r cyfarfod Mai 10, 2022**

**5. Materion Ariannol**

a. Am ein bod yn yr amser bydd angen adnewyddu ein polisi yswiriant gyda Zurich, rhoddwyd gwybod (11/5/2022) iddynt ni fydd angen cynwys Toiledau Bontddu yn y polisi ac mi fydd angen cynwys y lloches bws newydd sydd wrth Awelon, Llanelltyd (gweler Cofnodion Medi 14, 2021, Eitem 9.dd.).

Llythyr (18/5/2022) a dogfennau polisi yswiriant y Cyngor oddi wrth Zurich am y cyfnod 01/6/2022 i 31/5/2023. Y swm i'w adnewyddu yw £557.07. (Tâl flwyddyn ddiwethaf oedd £632.57).

Talwyd y swm ar 1/6/2022.

b. Anfonwyd cais am ad-daliad TAW am y cyfnod 1/11/2019 i 31/1/2022 i HM Revenue and Customs ar 19/5/2022.

c. Costau'r Clerc am Ebrill 1, 2021 - Mawrth 31, 2022:

Swm am: stampiau + papur + amlenni + inc: £528.69. (Llynedd roedd y costau yn £356.80).

ch. Anfonwyd copi o 'Cyfrifon Cyngor Cymuned Llanelltyd 2021-2022' a chopi o 'Cyllideb 2022-2023' i'r aelodau.

d. Balans yn y banc ar 29/5/2022: £11,498.83. (29/5/2021: £12,265.82).

## **6. Archwilio**

a. Derbyniwyd (11/5/2022) Adroddiad Archwiliad Mewnol oddi wrth Cyngor Gwynedd.

O'r adroddiad mae angen i'r Cyngor llunio cyllideb ffurfiol ar ddechrau y flwyddyn ariannol.

Anfonwyd yr adroddiad i'r aelodau gan gynnwys llythyr oedd rhwng yr archwiliwr a'r clerc yn ystod yr archwiliad.

Bydd angen i'r Cadeirydd arwyddo Ffurflen Flynyddol 2022 bydd yn cael ei anfon i Archwilio Cymru.

## **7. Mynwent Llanelltyd**

## **8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

## **9. Gohebiaeth**

a. Anfonwyd llythyr (18/5/2022) i Gynghorydd Delyth Lloyd Griffiths yn llongyfarch hi ar gael ei hethol yn Gynghorydd Ward Llanelltyd. Yn cynnwys gyda'r llythyr oedd mân wybodaeth am y cyngor.

b. Anfonwyd llythyr (21/5/2022) i Etholiad, Cyngor Gwynedd am hysbysiad i gyfethol aelodau.

Rhodddwyd hysbysiad am gyfethol pump aelod i'r Cyngor ar ein gwefan ac ar yr hysbysfyrddau (24/5/2022).

Derbyniwyd enwau Gwenan Owen a Gareth Ellis i fod yn gynghorwyr ar y Cyngor.

c. Llythyr (30/5/2022) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd torri gwair ar briffyrdd Llanelltyd ym mis Mehefin.

## **10. Adroddiad Cynghorydd Gwynedd Mrs Delyth Lloyd Griffiths**

## **11. Materion Brys**

Yn gywir,  
H.M. Edwards, Clerc